

CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Ebrill 2024 o Gyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd yng Nghlwb Mynyddcerrig ar 10/04/2024 am 19.00.

203/2023-2024 Presennol.

Y Cynghorwyr: R Jones (Cadeirydd), Y Cyng Sir H Jones, J Williams O.B.E, R Owen, M Rees, T Evans, R McFarlane.

Y Cyng Sir A Davies.

Clerc.

Cyfieithydd: M Davies.

204/2023-2024 I dderbyn ymddiheuriadau.

Cynghorwyr: S Herridge, K Waters, M Griffiths.

205/2023-2024 Derbyn datganiadau o ddiddordeb.

Dim.

206/2023-2024 Cyfleir cyhoedd annerch y Cyngor ar eitemau ar yr agenda.

Dim.

207/2023-2024 Materion y Cyngor Sir -Sir Dywedodd y CyngA Davies.

Ymddiheurodd y Cyngorydd Sir A Davies yn gyntaf am fod yn absennol yn ysbeidiol dros y misoedd diwethaf gan ei bod wedi bod yn hynod o brysur. Roedd y Gwaith wedi bod yn llethol gyda llawer o faterion o fewn y Ward, gan gynnwys tai, Ysgol Llanddarog, y cais cynllunio arfaethedig ym Mhorthyrhyd a'r grŵp peilonau ynghylch Llanarthne a Llanddarog.

Parthed y gais cynllunio arfaethedig ar Fferm Wern Fraith, Porthyrhyd rhagwelir y bydd y pwyllgor cynllunio yn cyfarfod ar 25/04/2024. Mae dau fater mawr yn ymwneud â'r datblygiad posibl hwn. Y system garthffosiaeth ac anallu Dŵr Cymru i ymdrin â dŵr wyneb a charthffosiaeth. Bydd un aelod o'r gymuned yn rhoi cyflwyniad i'r pwyllgor cynllunio ar y pwnc hwn ac mae'r Cyngorydd Sir A Davies yn trafod y gwelliannau angenrheidiol gyda Dŵr Cymru. Mae cynllun AMP 7 AC 8 ar gael, ac mae'r Cyngorydd Sir A Davies yn gyrru am welliannau o fewn y gymuned. Mae'r Cyngorydd Sir A Davies wedi argymhell bod MAP (Mudiad Amddiffyn Porthyrhyd) yn cael adroddiad hydroleg i gwestiynu adroddiad Dŵr Cymru. Dywedodd y Cyng Sir A Davies y bydd yn cyflwyno ar yr iaith Gymraeg. Nid oes unrhyw sicrwydd y gall y bobl leol brynu'r cartrefi hyn yn gyntaf ac nid ydym yn gwybod os yw'r swyddogion am ganiatáu'r gais. Os gwrthodir y cais cynllunio arfaethedig, bydd y datblygwyr yn fwy na thebyg yn apelio.

Dywedodd y Cyng R Jones fod y CDLI yn caniatáu ar gyfer 27 o anheddau ar y safle. A all y datblygwyr newid eu meddwl ar ôl cytuno ar y cais cynllunio.

Dywedodd y Cyng Sir A Davies os bydd yr adran gynllunio yn cymeradwyo'r gais a'r pwyllgor gynllunio yn gwrthod y gais cynllunio, bydd y datblygwyr yn apelio.

Gofynnodd y Cyng R Jones a fyddai'r adroddiad hydroleg yn cwestiynu adroddiad Dŵr Cymru.

Dywedodd y Cyng Sir A Davies mewn perthynas â'r materion gyda Dŵr Cymru, y byddai adroddiad hydroleg yn cadarnhau neu'n gwadu eu hadroddiad.

Gofynnodd y Cyng J Williams O.B.E a oedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn debygol o gadw at eu penderfyniad ynglŷn â thai fforddiadwy neu newid eu meddwl fel mewn amrywiol ddatblygiadau eraill.

Nid oedd y Cyng Sir A Davies yn gallu cadarnhau eu gweithredoedd yn y dyfodol.

208/2023-2024 Adroddiad y Cadeirydd.

Dim.

209/2023-2024 Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 13/03/2024.

Penderfynwyd cadarnhau cofnodion 13/03/2024. Cynigwyd gan y Cyng M Rees ac eiliwyd gan y Cyng Sir H Jones.

210/2023-2024 Materion yn codi o'r cofnodion uchod.

Dywedodd y Clerc wrth aelodau'r cyngor fod yr holl faterion i'w datrys wedi eu gweithredu ac os derbyniwyd gohebiaeth, roedd copi o'r E-bost wedi ei anfon at bob aelod er gwybodaeth.

211/2023-2024 I nodi gohebiaeth neu i restru i'w hystyried mewn cyfarfod o'r cyngor sydd i ddod.

(Mae'r holl ohebiaeth berthnasol yn cael ei e-bostio at aelodau'r cyngor ar yr adeg y'i derbynir a dim ond yn cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod os oes angen neu os gwneir cais penodol gan yr aelodau neu'r Clerc).

212/2023-2024 Cynllunio.

Dim.

213/2023-2024 Taliadau.

Ardystiwyd y taliadau isod yn nghyfarfod mis Chwefror, a chadarnhawyd hwy yng nghyfarfod mis Mawrth. Copïau o anfonebau a anfonwyd at bob aelod yn electronig cyn talu am awdurdodiad. Cynigwyd gan y Cyng R Jones ac eiliwyd gan y Cyng J Williams O.B.E

Dull Talu	Dyddiad	Cyflenwyr a Manylion	Swm £ gan gynnwys TAW
Ar-lein	25/03/2024	JG Evans – Cyflogres mis Mawrth	419.74
Ar-lein	25/03/2024	CThEM TWE – Cyfnod 12	109.80
Ar-lein	25/03/2024	Cyng TT Evans – 2023–2024 Cyflog	150.00
Ar-lein	25/03/2024	Cyng R McFarlane – 2023-2024 Cyflog	150.00
Ar-lein	25/03/2024	Roman Solutions - 12764	450.00
Ar-lein	25/03/2024	Ysgol Maes y Gwendraeth - Rhodd	97.00

Ar-lein	25/03/2024	CFfl Llanddarog - Rhodd	100.00
Ar-lein	25/03/2024	Ambiwlans Awyr Cymru - Rhodd	57.00
Ar-lein	25/03/2024	Cymorth Canser Macmillan - Rhodd	100.00
Ar-lein	25/03/2024	Neuadd Bentref Llanddarog - 89	36.00
Ar-lein	25/03/2024	Cyngor Sir Caerfyrddin - 97552626	2174.15
Ar-lein	27/03/2024	Catrin Llwyd – CCLL25	166.00
Ar-lein	27/03/2024	Un Llais Cymru – 2024-2025	230.00
Ar-lein	27/03/2024	SLCC – MEM248161-1	183.00
Ar-lein	28/03/2024	Nest	40.06
Ar-lein	28/03/2024	Cyngor Cymuned Llanarthne – 50% o gyfraniadau Zoom	200.00

Ysgol Maes y Gwendraeth - £97.00 (Lwfans Dinesig £57.00, Adran 137 £40.00)

CFfl Llanddarog - £100.00 Adran 137.

Ambiwlans Awyr Cymru - £57.00 o Lwfans Dinesig.

Cymorth Canser Macmillan - £100.00 Adran 137.

214/2023-2024 Derbyniadau.

04/03/2024 – Rhodd Chwyddo Cyngor Tref Rhydaman - £20.00.

215/2023-2024 Derbyn adroddiad yr Arholwr Ariannol Mewnol 01/01/2024 – 31/03/2024.

Roedd pob aelod wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig cyn y cyfarfod. Cafwyd adroddiad llafar llawn gan y Cyng R Jones. Cadarnhaodd yr adroddiad gywirdeb y cysoniad banc a'r datganiad cyfrifon a ddarparwyd i'r Cyngor. Cadarnhaodd hefyd gywirdeb y darparu adroddiad cyllideb parhaus. Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng M Rees i dderbyn yr adroddiad. Diolchodd yr aelodau i'r Cyng R Jones a'r Clerc am eu gwaith.

Roedd pob aelod wedi cael copi o gyfrifon 2023 – 2024 cyn y cyfarfod. Diweddarodd y Clerc holl aelodau'r cyngor ar incwm, gwariant ac adroddiad cyllideb cyflawn. Dangosodd y Clerc fod rhai pynciau o'r gyllideb gyda gorwariant ac eraill danwariant a rhoddwyd eglurhad i bob pwnc.

216/2023-2024 I drafod Adroddiad Archwilio Cymru 2022 - 2023.

Derbyniwyd yr e-bost canlynol gan Archwilio Cymru ar 28/02/2024 ac fe'i hanfonwyd at holl aelodau'r cyngor.

Barn archwilio: Cymwys.

Ac eithrio'r materion yr adroddir arnynt isod yn fy Sail Cymhwyso, ar sail fy archwiliad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw i beri pryder, mewn unrhyw ffordd berthnasol, fod y wybodaeth a adroddir yn y Ffurflen Flynyddol hon:

- heb ei baratoi yn unol ag arferion priodol;
- nad yw gofynion deddfwriaethol a rheoliadol perthnasol wedi'u bodloni;
- nad yw'n gyson â threfniadau llywodraethu'r Cyngor; a
- nad oes gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Sail y Cymhwyster

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Yn fy marn i, nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyson â rheolaethau mewnol a threfniadau llywodraethu'r Cyngor am y flwyddyn:

- Honiad 1: Trefniadau ar gyfer cymeradwyo cyfrifon Ni wnaeth y Cyngor drefniadau priodol ar gyfer cymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol. Ni chymeradwyodd y Cyngor y cyfrifon erbyn 30 Mehefin fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.
- Honiad 4: Ni wnaeth y Cyngor drefniadau priodol i'r cyhoedd archwilio cyfrifon fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.
- Honiad 3: Nid yw'r Cyngor wedi darparu tystiolaeth bod cyllideb wedi ei gosod yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a bod y praesept wedi ei osod yn unol â'r gyllideb. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried lefel ei gronfeydd wrth gefn wrth bennu ei ofynion cyllideb. Argymhellwn fod y Cyngor yn pennu cyllideb yn unol â'r rheoliadau a'r codau ymarfer perthnasol.

Trafodwyd yr e-bost gan aelodau'r cyngor yng nghyfarfod mis Mawrth ar 13/03/2024 a phenderfynwyd i'r Clerc gysylltu ag Archwilio Cymru ynglŷn â'r amserlen a ganiateir cyn derbyn ymateb. Dywedodd y Clerc ei fod wedi siarad ag aelod o Archwilio Cymru ac fe'i hysbyswyd nad oedd amserlen wedi'i phennu ond byddai ymateb yn unol â'r adeg y derbyniwyd e-bost gan y cyngor cymuned.

Dywedodd y Clerc na dderbyniwyd ymateb gan Archwilio Cymru cyn y cyfarfod a'i bod yn bwysig trafod a chwblhau eu penderfyniad.

Trafododd aelodau'r Cyngor benderfyniad Archwilio Cymru ar gyfer 2022 – 2023 a phenderfynwyd ar y canlyniad a ganlyn -

Honiad 1 – Cytuno. (Adroddiad hwyr gan yr Archwilydd Ariannol Mewnol)

Honiad 3 – Gwrthwynebu yn y bôn. (Hysbysiad wedi'i roi ar y wefan ac ar hysbysfyrddau cymunedol. Tystiolaeth wedi'i hanfon at Archwilio Cymru)

Honiad 4 - Gwrthwynebu yn y bôn. (Tystiolaeth wedi'i hanfon a hefyd ar gael i'w gweld drwy'r wefan ym mis Rhagfyr 2021 a mis Ionawr 2022)

Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng R Jones. **Penderfyniad** unfrydol gan holl aelodau'r cyngor oedd yn bresennol. Penderfynwyd nodi.

217/2023-2024 I drafod carreg goffa Mynyddcerrig.

Dywedodd y Cyng J Williams O.B.E ei fod wedi siarad gyda Mrs Maria Evans o Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch mabwysiadu'r garreg goffa a chadarnhaodd fod Mr Meirion Howells wedi cymeradwyo mabwysiadu carreg goffa Mynyddcerrig i Gyngor Cymuned Llanddarog.

Adroddodd y Clerc ei fod wedi cysylltu â Wyn Bishop Trefnwr Angladdau a Mason Coffa ond ei fod yn dal i aros am ddyfynbris.

218/2023-2024 Derbyn diweddariad ar garreg goffa Porthyrhyd.

Cadarnhaodd y Cyng R Owen fod Chwarel Torcoed wedi cymeradwyo benthyg y gadwyn.

219/2023-2024 I drafod offer codi sbwriel cymunedol.

Anfonodd y Clerc e-bost at holl aelodau'r cyngor ar 24/03/2024 gyda gwybodaeth am offer codi sbwriel ac ar ôl ymchwilio a chymharu gwahanol gynnyrch a phrisiau yn lleol ac ar-lein, daeth o hyd i fanylion cwmni sy'n gystadleuol o ran pris, sydd ag adolygiadau cadarnhaol iawn, gwarant oes ar y darpar ac mae ganddo ethos da o ran ailgylchu.

www.waterhaul.co.uk

Mae festiau diogelwch ar gael trwy Amazon am brisiau cystadleuol ac mewn lliwiau amrywiol.

Dywedodd y Clerc ar ôl sgwrs gyda'r aelod o'r gymuned, mae'r gymuned angen 5 - 6 set o offer codi sbwriel. Byddai pob set yn costio tua. £30.00.

Trafododd aelodau'r Cyngor ganlyniadau'r ymchwiliad, a phenderfynwyd y dylai'r Clerc gysylltu â'r aelod cymunedol i drafod fformatio, diogelwch a threfniadaeth y grŵp codi sbwriel cyn i'r cyngor cymuned brynu'r offer a'i rhoi i'r grŵp codi sbwriel. **Penderfynwyd** i'r Clerc gysylltu â'r aelod cymunedol.

220/2023-2024 Fforwm er mwyn i Aelodau godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd.

Mynegodd y Cynghorydd R Owen bryder ynghylch gŵyl gerddoriaeth 4-diwrnod bosibl sydd wedi'i chynllunio ar gyfer Mynyddcerrig yn haf 2024.

Dywedodd y Clerc ar ôl sgwrs gyda threfnydd yr ŵyl, Mynyddfest fydd yr ŵyl gerddoriaeth fyw gyntaf erioed ym Mynyddcerrig ac yn rhedeg o 11/07/2024 – 14/07/2024.

Bydd y digwyddiad yn cynnwys amrywiaeth o artistiaid, bandiau a cherddorion lleol ynghyd â chystadleuaeth meic agored lle gall yr enillydd adennill cost eu tocyn.

Bydd gan ddeiliaid tocynnau hefyd yr hawl i gymryd rhan mewn gweithdai amrywiol gan gynnwys dawnys fewnol, bath sain, taith Shamanig, a gweithdy cerddoriaeth rhad ac am ddim i unrhyw un sydd am chwarae offeryn am y tro cyntaf. Bydd yn ŵyl fach gartrefol sy'n ei gwneud yn ddelfrydol ar gyfer y rhai sy'n brwydro mewn torfeydd mawr yn ogystal â chynyddu'r naws gymunedol a bydd gwersylla am ddim hefyd. Bydd cerddoriaeth fyw o werin i fetel, gweithdai iachau, gweithdai cerddoriaeth, adloniant i blant, ysgol goedwig, therapïau amgen, stondinau gan grefftwyr lleol a therapyddion amgen. Bydd nifer o weithgareddau i gadw'r cyhoedd yn brysur drwy gydol y digwyddiad neu gallwch eistedd yn ôl a mwynhau gwranddo ar y synau o'ch cwmpas. I'r rhai sy'n ffansiö ychydig o heddwch a thawelwch gallant hefyd ddianc i'r coed yn yr ŵyl ac ailgysylltu â natur.

Mae tocynnau yn costio £114 i oedolion a £60 i blant (4-15 oed).

Dywedodd y Clerc hefyd wrth aelodau'r Cyngor fod trefnydd y digwyddiad wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i sicrhau diogelwch y cyhoedd wrth fynedfa/allanfa'r ŵyl. Cododd aelodau'r Cyngor bryderon ynghylch llygredd sŵn, sbwriel a pharcio. **Penderfynwyd** nodi.

Holodd y Cyng M Rees ynghylch adfer Gwobrau Cymunedol Cyngor Cymuned Llanddarog. **Penderfynwyd** gohirio tan gyfarfod mis Mai ar 08/05/2024.

Holodd y Cyng M Rees am y gwasanaeth dinesig yn Eglwys Sant Twrog, Llanddarog. **Penderfynodd** aelodau'r Cyngor ei ohirio tan 2025 – 2026. **Penderfynwyd** nodi.

Mynegodd y Clerc bryder nad oes gan Gyngor Cymuned Llanddarog Is-Gadeirydd i gymryd lle'r Cadeirydd yn 2024 – 2025 ar ôl ymddiswyddiad y Cynghorydd R Newell ym mis Chwefror 2024. Trafododd aelodau'r Cyngor y pwnc, a phenderfynwyd y dylai'r Clerc gymryd rheoli'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar 08/05/2024 hyd nes y bydd aelodau'r cyngor yn pleidleisio ar y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd newydd ar gyfer 2024 – 2025. **Penderfynwyd** nodi.

Awgrymodd y Cynghorydd Sir H Jones y dylai holl feinciau'r cyngor gael eu hysgythru gyda "Cyngor Cymuned Llanddarog Community Council" i atal lladrata o asedau'r cyngor. Dywedodd fod Cyngor Cymuned Llanarthne wedi mabwysiadu'r

syniad yn 2022 ar ôl i fainc gymunedol gael ei dwyn o'i lleoliad. Dywedodd y Clerc mai cost ysgythru pob mainc fyddai £45.00. Gofynnodd y Cyng J Williams O.B.E a oedd angen tynnu'r holl feinciau i gael eu hysgythru neu a oedd yn wasanaeth symudol. Dywedodd y Clerc y byddai angen tynnu'r 3 plinth cefn i gwblhau'r dasg. Awgrymodd y Clerc ysgythru nifer fechan o feinciau ar un adeg er mwyn osgoi pryderon diogelwch. Cytunodd holl aelodau'r cyngor. **Penderfynwyd** i'r Clerc drefnu ysgythru.

221/2023-2024 Mewn camera 20.36.

Gadawodd y rhai nad oeddent yn aelodau o'r Cyngor Cymuned neu'r Clerc y cyfarfod – i beidio â dychwelyd. Mae'r gwaharddiad oherwydd bod materion personél /staffio yn cael eu trafod.

222/2023-2024 Rhediad cyflog staff Ebrill 2024.

Adroddodd y Clerc symiau'r gyflogres ar lafar i holl aelodau'r cyngor. **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad a chadarnhau taliad y symiau a gyflwynwyd. Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng M Rees.

223/2023-2024 Daeth y cyfarfod i ben am 20.41.

Cadeirydd

Dyddiad